# Pecyn Gwybodaeth Bwrdd Rheoli GISDA

Ymunwch â ni i gryfhau dyfodol Pobl Ifanc Gwynedd







# Pwy ydy GISDA?

## MUDIAD SY'N CAEL EI ARWAIN GAN BOBL IFANC I BOBL IFANC

Mae GISDA wedi bod yn cefnogi pobl ifanc bregus ers 1985.
Heddiw mae GISDA yn cyflogi 50 o staff ac yn cefnogi dros 500 o bobl ifanc ar draws Gwynedd bob blwyddyn.

## EIN HAMCANION

**Darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus yng Ngwynedd drwy darparu gwasanaethau o fewn 5 thema strategol:**

GISDA Llety / Accommodation

GISDA Llesiant / Wellbeing

GISDA Llais / Voice

GISDA Cefnogaeth / Support

GISDA Cyfleon / Opportunities

# Pam ymuno rwan?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae GISDA wedi buddsoddi'n sylweddol mewn:

- Datblygu a gwella llety ar draws Gwynedd
- Sefydlu a chryfhau hybiau cymunedol
- Ehangu ein darpariaeth mewn ardaloedd gan gynnwys Dwyfor
- Adeiladu seilwaith gwasanaethol cadarn

Rydym bellach yn symud i gyfnod newydd: cadarnhau, cryfhau a sicrhau cynaliadwyedd. Dyma'r cam lle mae llywodraethiant cryf, craff ac annibynnol yn hollbwysig. Mae GISDA wedi buddsoddi mewn asedau, pobl a gwasanaethau.

Y cam nesaf yw sicrhau:

- Sefydlogrwydd ariannol hirdymor
- Llywodraethiant cryf a chraff
- Rheoli risg effeithiol mewn cyfnod heriol
- Defnyddio ein hasedau'n strategol i gynyddu effaith

Mae GISDA ar ddechrau'r broses o ddatblygu Strategaeth 2027–2032, a fydd yn diffinio cyfeiriad y sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.

Dyma gyfle i ymuno ar adeg allweddol:

- I siapio'r strategaeth newydd
- I sicrhau bod buddsoddiad diweddar yn cyflawni'r effaith fwyaf posibl
- I gryfhau'r sylfeini ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau

# Rôl yr Aelod Bwrdd

Fel aelod o'r Bwrdd Rheoli, byddwch yn gyfrifol ar y cyd am lywodraethu strategol GISDA.

Byddwch yn:

- Gosod cyfeiriad strategol clir
- Monitro perfformiad a chynaliadwyedd ariannol
- Goruchwylio rheoli risg ac asedau
- Cefnogi a herio'n adeiladol y Prif Weithredwr
- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad

Nid rôl weithredol o ddydd i ddydd yw hon, ond rôl arweinyddol ar lefel strategol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob dau fis, gyda chyfranogiad rheolaidd mewn is-bwyllgorau (e.e. cyllid ac asedau; busnes a staffio; gwasanaethau).

# Ymrwymiad

- Tymor penodiad arferol: 3 blynedd (gellir adnewyddu)
- Rôl wirfoddol (treuliau rhesymol yn cael eu talu)
- 6 chyfarfod bwrdd y flwyddyn
- Paratoi ymlaen llaw a chyfranogiad gweithredol
- Cyfle i gymryd rhan mewn is-bwyllgor

# Pwy Rydym yn Chwilio Amdanynt

Rydym yn awyddus i gryfhau sgiliau ac arbenigedd ein Bwrdd wrth i ni symud i'r cam nesaf hwn.
Byddem yn croesawu'n arbennig unigolion sydd â phrofiad mewn:

- Cyllid, archwilio neu reoli risg
- Rheoli asedau neu eiddo
- Datblygu busnes neu gynaliadwyedd ariannol
- Llywodraethiant neu gyfreithiol
- Adnoddau Dynol
- Codi arian a datblygu incwm

Ond yn bwysicach na sgiliau technegol, rydym yn chwilio am bobl sydd â:

- Ymrwymiad cryf i bobl ifanc
- Meddwl strategol a barn annibynnol
- Parodrwydd i herio'n adeiladol
- Gwerthoedd sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir ac yn croesawu amrywiaeth o brofiadau.
**Gan fo'r pobl ifanc wedi'u tan-gynrychioli ar ein Bwrdd ar hyn o bryd, rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan bobl 18-25 oed.**

# Ein Heffaith

Bob blwyddyn mae GISDA yn cefnogi pobl ifanc drwy:

- Darparu llety diogel
- Cefnogi datblygiad sgiliau byw annibynnol
- Cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad i addysg, hyfforddiant a gwaith
- Cynnig gweithgareddau therapiwtig a chymunedol

Mae ein gwaith yn helpu pobl ifanc i symud o ansicrwydd a digartrefedd tuag at sefydlogrwydd a dyfodol cadarnhaol.

**Fel ymddiriedolwr, byddwch yn helpu i sicrhau bod yr effaith hon yn parhau – ac yn tyfu – mewn ffordd gynaliadwy**



# Y Buddion i Chi

Beth Yw'r Buddion i Chi?

- Profiad arwain ar lefel Bwrdd
- Datblygu sgiliau strategol a llywodraethiant
- Cyfle i ddylanwadu ar wasanaethau ieuenctid rhanbarthol
- Rhwydwaith proffesiynol ehangach
- Gwneud gwahaniaeth cymdeithasol gwirioneddol

# Sut i wneud Cais

Os hoffech ymuno â ni yn ystod y cyfnod allweddol hwn anfonwch:

- CV cyfredol
- Llythyr neu fideo byr yn amlinellu eich diddordeb a'r profiad y byddech yn ei gynnig

At:

Elizabeth George (Ysgrifennydd Cwmni)

elizabeth.george@gisda.co.uk

21-23 Y Maes, Caernarfon, LL55 2NA

Dyddiad Cau - 1af o Fai, 2026

Rydym yn croesawu sgyrsiau anffurfiol cyn gwneud cais.

# Y Cam Nesaf i GISDA

**Rydym am sicrhau bod GISDA mewn sefyllfa gryf, gynaliadwy ac uchelgeisiol ar gyfer 2027–2032 a thu hwnt.**

**Os ydych am ddefnyddio eich profiad a'ch sgiliau i gryfhau sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ifanc Gwynedd – hoffem glywed gennych.**

**Dewch i fod yn rhan o bennod nesaf hanes GISDA**

**CYSYLLTWCH Â NI**

01286 671153

gisda@gisda.co.uk

www.gisda.org

**DILYNWCH NI**

@gisdacyf

@gisdacyf

@gisdacyf